Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council


At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 17 Ionawr 2024

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023 (copi ynghlwm).

**5 CANLYNIAD ADOLYGIAD Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU O BENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD Â'R CYNNIG AM ARBEDION I'R GWASANAETH LLYFRGELLOEDD/SIOPAU UN ALWAD** (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried canlyniad yr adolygiad o'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2023 yn ymwneud â'r cynnig am arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad a oedd wedi'i alw i mewn a'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 11 Ionawr 2024.

**6 CYLLIDEB Y CYNGOR 2024/25** (Tudalennau 29 - 56)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn nodi goblygiadau Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2024/25 a chynigion i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

**7 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR "DRETH GYNGOR DECACH"** (Tudalennau 57 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer yr ymateb arfaethedig i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "Dreth Gyngor Decach".

**8 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 77 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 93 - 98)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**10 GWAREDU FFERM PERONNE, FFORDD COPPY, DINBYCH** (Tudalennau 99 - 124)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddatgan nad oes angen Fferm Peronne ar y Cyngor bellach a chymeradwyo ei gwaredu.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Gwyneth Ellis**
**Gill German**
**Elen Heaton**
**Julie Matthews**
**Jason McLellan**
**Barry Mellor**
**Win Mullen-James**
**Rhys Thomas**
**Emrys Wynne**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned